| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 8 Mehefin 2023 |
| **TEITL** | Cyfarfodydd Herio Perfformiad Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir datblygiadau prosiectau'r Adrannau sydd yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

3. Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

   - Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
   - Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

4. Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, ganllaw herio perfformiad ar gyfer aelodau craffu.

5. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mawrth 2023, enwebwyd y Cynghorydd Paul Rowlinson i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Gyllid. Yn dilyn y cyfarfod, rhoddwyd cyfle i aelodau'r pwyllgor ddangos diddordeb yn cynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn lle'r Cynghorydd Paul Rowlinson. Mae'r Cynghorydd Huw Rowlands eisoes yn cynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

6. Ni dderbyniwyd enw i law ar gyfer cynrychioli'r pwyllgor yn y cyfarfodydd yma yn lle'r Cynghorydd Paul Rowlinson ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

7. Yr amser a'r dyddiadau sydd wedi eu pennu ar gyfer cyfarfodydd 2023/24, lle bydd cynrychiolwyr y pwyllgor yn bresennol yw:

| Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | Gwasanaeth Cyfreithiol |
|---|---|
| 1.00 – 3.30, 18 Medi 2023 | 1.30 – 2.30, 12 Medi 2023 |

| | |
|---|---|
| 2.00 – 4.30, 11 Mawrth 2024 | i'w gadarnhau – Mawrth 2024 |

8. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi enwebu aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng Nghyfarfodydd Herio Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.**